**Albert Heaney CBE**
**Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru**
**Chief Social Care Officer for Wales**
**Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

23 Mai 2022

Annwyl Gyfeillion,

**Dileu Elw o Ofal**

Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn rhan bwysig o gynllun ehangach y Llywodraeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Cynllun, a gyhoeddwyd ar Ddydd Gŵyl Dewi, yn nodi'n glir yr hyn y bydd y Llywodraeth yn ei wneud i wneud Cymru'n lle gwych i blant a phobl ifanc dyfu i fyny.

Rwy'n siŵr y byddwch yn gyfarwydd ag wyth ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu sydd ar waith i wella bywydau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a theuluoedd sydd ar ffiniau gofal. Gyda'i gilydd, bydd yr ymrwymiadau hyn yn helpu i drawsnewid y ffordd y darperir gofal i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Mae'r Rhaglen Lywodraethu, sy'n ymgorffori'r Cytundeb Cydweithredu â Phlaid Cymru i'w gweld yma -
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-01/rhaglen-lywodraethu-diweddariad-rhagfyr-2021.pdf

Er bod gennym Dymor y Senedd hon ar ei hyd i gyflawni'r ymrwymiadau hyn yn y Rhaglen Lywodraethu (hyd at fis Ebrill 2026), mae llawer o waith i'w wneud. Mae cryn weithgarwch eisoes ar y gweill i fwrw ymlaen â'n hymrwymiad i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. Mae Gweinidogion Cymru yn glir yn eu barn na ddylid gwneud elw o ofalu am blant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd.

Ein nod yw sicrhau nad yw arian cyhoeddus a fuddsoddir mewn llety ar gyfer plant â phrofiad o ofal yn arwain at elw, ond yn hytrach bod unrhyw arian dros ben yn cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau i blant er mwyn sicrhau gwell canlyniadau, gwella gwasanaethau a sicrhau datblygiad proffesiynol pellach. Mae hyn yn golygu y bydd gofal plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan sefydliadau sector cyhoeddus, sefydliadau elusennol neu sefydliadau nid-er-elw.

Mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o'r pwysau sylweddol sy'n wynebu gwasanaethau plant yng Nghymru, ac fe hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gydnabod yr her honno a'ch ymrwymiad i arwain gwasanaethau yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Diben cyffredinol ysgrifennu atoch yw eich cynnwys wrth inni weithio tuag at ddull o gydweithio yn fanwl gydag awdurdodau lleol. Rydym yn datblygu'r dull hwn drwy weithio gyda chi i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer cynnydd tuag at sicrhau system nid-

er-elw mewn awdurdodau. Wrth wneud hynny, byddwn yn gallu canfod y lefel o gefnogaeth a newid sy’n angenrheidiol i gyflawni cynlluniau’r Llywodraeth.

Byddwch eisoes wedi bod yn rhan o drafodaethau am ein dull cyffredin o gyflawni'r flaenoriaeth hon a bydd rhai cydweithwyr yn aelodau o Fwrdd y Rhaglen neu ffrydiau gwaith cysylltiedig sy'n goruchwylio ei gynnydd. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i fynegi fy niolchgarwch am y cyfranogiad gweithredol a defnyddiol hyd yn hyn.

Er mwyn helpu i lywio ein gwaith cynllunio ar gyfer pontio i system ofal nid-er-elw, wedi’i thrawsnewid yng Nghymru, byddwn yn gweithio gyda Chonsortiwm Comisiynu Plant Cymru (y 4C), gyda chydsyniad y 4C, i gasglu’r data cyfredol a ddarperir gan awdurdodau lleol. Daw’r data o'ch Ffurflenni Data Sylfaenol Chwarterol a luniwyd gan Data Cymru ar gyfer 4C, ynglŷn â gofynion presennol lleoliadau gofal maeth a gofal preswyl. Cafodd Modiwl Digonolrwydd yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CCSR) ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru yn 2020 er mwyn gallu monitro capasiti, cyflenwad a galw lleoliadau awdurdodau lleol yn llawn, i sicrhau darlun mwy cywir o ddigonolrwydd cyffredinol. Bydd defnyddio'r ffurflen ddata hon yn osgoi'r gofyniad am geisiadau dyblyg am wybodaeth gennych. Wrth gwrs, byddwn yn rhannu'r data a gasglwyd a'u dadansoddiad gyda chi. Mae'n hanfodol bod ffurflen ddata lawn ar gael ar gyfer diwedd blwyddyn ariannol 21/22. A wnewch chi helpu drwy gyflwyno eich ffurflen erbyn diwedd mis Mai.

Yn ogystal â mapio proffil presennol y ddarpariaeth gofal preswyl a gofal maeth ar draws Cymru, rydym hefyd wedi cyrraedd y cam lle mae angen i ni ymgymryd â gwaith modelu a rhagweld gofynion lleoli yn y dyfodol, er mwyn llywio'r broses o drosglwyddo i system nid-er-elw a all ddiwallu anghenion pob plentyn mewn gofal.

Er mwyn gwneud hyn, hoffem i bob awdurdod lleol adolygu ei Strategaethau Comisiynu Lleoliadau presennol. Er ein bod yn cydnabod y bydd gwahaniaethau yn y materion sy’n effeithio ar awdurdodau, a lefel eu parodrwydd, rydym yn gofyn ichi ganolbwyntio'n benodol ar eich bwriad o ran rhagamcanu'r galw yn y dyfodol ac unrhyw gynlluniau i uwchraddio'r ddarpariaeth bresennol ynghyd â'r math o fodelau gofal sydd eu hangen. Wrth ymateb, dylech ystyried:

- ffurf darpariaeth gofal preswyl a gofal maeth yn y dyfodol a fydd yn diwallu anghenion eich poblogaeth plant sy'n derbyn gofal orau.
- sut rydych yn bwriadu cyflawni hyn (datblygu eich darpariaeth eich hun/ehangu'r ddarpariaeth bresennol nid-er-elw)
- modelu ariannol yn y dyfodol er mwyn cyflawni, gan gynnwys ceisiadau am gymorth ariannol o'n cronfa 30m.
- datblygu gwasanaethau gofal maeth yn unol â ffyrdd Maethu Cymru o weithio.
- gofynion capasiti a gallu'r gweithlu i gefnogi proffil yn y dyfodol.

Bydd nifer o bethau y byddwch efallai’n dymuno eu harchwilio a’u cynnwys yn eich cynllun, gan gynnwys a oes darparwyr nid-er-elw lleol a fyddai’n dymuno i’r awdurdod lleol gymryd perchnogaeth o’u sefydliadau. A fyddech cystal hefyd â nodi cerrig milltir ac amserlenni i’w cyflawni yn erbyn eich cynlluniau i ddatblygu a/neu i ehangu. Dylai Strategaethau Comisiynu Lleoliadau (PCS) gael eu diweddaru'n rheolaidd a'u hystyried yn ddogfen fyw.

Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, AWHOCS a Maethu Cymru i sefydlu'r dull gorau o ddiweddaru'r darlun hwn a datrys unrhyw rwystrau i gynnydd, gan ystyried yr amcan cyffredinol a'r graddfeydd amser.

Bydd yr wybodaeth a roddwch yn cael ei defnyddio gan Fwrdd y Rhaglen i alluogi aelodau i ddilyn y trywydd angenrheidiol i bontio i system nid-er-elw. Bydd hefyd yn pennu sut y gellir defnyddio'r gronfa £10m sydd ar gael bob blwyddyn am y 3 blynedd nesaf i'w llawn botensial.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai pob awdurdod lleol ymateb erbyn 30 Mehefin. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, mae croeso i chi gysylltu â Thîm y Rhaglen drwy e-bostio PlantSynDerbynGofal@llyw.cymru.

Yn gywir



**Albert Heaney CBE**
**Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru**